**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MB/MD/5225/14

Ann Jones AC
Cadeirydd
Pwyllgor Addysg, Plant a Phobol Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

5 Rhagfyr 2014

Annwyl Ann

Rwy'n ysgrifennu i ddiolch i chi ac i aelodau'r Pwyllgor am eich ymchwiliad a'ch adroddiad i mewn i wasanaethau iechyd meddwl arbenigol plant a'r glasoed yng Nghymru. Rwy'n arbennig o falch bod y pwyllgor trwy gasglu'r dystiolaeth wedi gofyn yn uniongyrchol am farn pobol ifanc, rhieni a gofalwyr.

Hoffwn adleisio teimladau'r pwyllgor bod hyn yn foment bwysig i CAMHS yng Nghymru. Dyma pam fy mod wedi galw am adolygiad sylfaenol o wasanaethau er mwyn sicrhau y byddant yn bodloni anghenion plant a phobol ifanc yn y dyfodol. Rwy'n hynod o falch fod yr Athro, y Fonesig Sue Bailey, eisoes wedi cytuno i ymgymryd â rôl yn cefnogi newid a datblygiad clinigol.

Hoffwn ganmol penderfyniad y pwyllgor i ganiatáu amser i'r gwaith ail-ddylunio i ymwreiddio ac i gyflawni, cyn ystyried argymhellion yr ymchwiliad. Bydd eich adroddiad a'r dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno i'r pwyllgor yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at siapio trawsnewidiad gwasanaethau. Mi wnaf ddiweddau'r pwyllgor ar y cynnydd tuag at ddiwedd 2015.

Yn gywir,

Mark

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*